



10/11

Cynllun Plismona Sector Cymru



HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd AHTP	01
Rhagair gan Brif Gwnstabl HTP	02
Targedau cenedlaethol	03
Rhagair gan y Comander Rhanbarthol	06
Targedau Rhanbarthol	08



Millie Banerjee

Cadeirydd, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Ers sefydlu Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (AHTP) yn 2004, mae perfformiad yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (HTP) wedi gwella'n sylweddol. Yn sgîl buddsoddiad hael gan y diwydiant rheilffyrdd ar ffurf cynnydd yn y gyllideb refeniw dros y pum mlynedd diwethaf, bu modd i HTP uwchraddio ei seilwaith gwichlyd a recriwtio dros fil o swyddogion a staff newydd.

Mae'r buddsoddiad wedi talu ar ei ganfed: yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cyfanswm y troseddau a gyflawnir wedi lleihau 24% ac mae'r cyfraddau datrys cyffredinol wedi cynyddu 18 pwynt canran. Heddiw, HTP yw un o'r heddluoedd mwyaf effeithlon ac effeithiol yn y wlad ac mae ar flaen y gad o ran gweithrediadau diogelu rheilffyrdd ledled y byd.

Ers y llynedd, ein tasg fu atgyfnerthu'r sefyllfa honno. Dim ond dod allan o gyfnod o ddirwasgiad difrifol yr ydym, un a effeithiodd ar y diwydiant rheilffyrdd a HTP fel ei gilydd, ac mae angen i ni sicrhau cymaint o werth â phosibl o'r buddsoddiadau a wnawn. Bu AHTP a HTP yn cydweithio'n agos i wella effeithlonrwydd ledled y wlad. Sicrhau bod ein swyddogion yn weladwy ac yn effeithiol fu ein blaenoriaeth ar hyd yr amser. Ond mae angen i hyn barhau ac, i'r perwyl hwn, mae rhaglen *Frontline* first wedi arbed mwy na £14 miliwn ers iddi ddechrau ym mis Ebrill 2008. Nod ail gam y rhaglen fydd gwella'r record honno ymhellach.


Mae AHTP a HTP wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd ar y setliad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac mae AHTP wedi pennu cynnydd o 1.3% yn y gyllideb ar gyfer 2010/11. Er bod y cynnydd hwn yn gymharol fach ac yn angenrheidiol i ariannu'r cynnydd o 2.55% yng nghyflwg yr heddlu y cytunwyd arno yn

genedlaethol, mae'r diwydiant yn wynebu cryn dipyn o bwysau ariannol. Bydd yn setliad anodd ei weithredu, ond mae AHTP a HTP yn sicr y gellir ei gyflawni.

Cyllideb net HTP ar gyfer blwyddyn blismona 2010/11 yw £202.2 miliwn. Mae costau swyddogion a staff yn cyfateb i 74% o'r holl gostau, gyda gweddill y gyllideb yn cael ei gwario ar weithgareddau ategol.

Ein nod yn y pen draw yw cynnal record HTP o sicrhau gwelliant cyson ers 2004, sydd wedi golygu bod y rheilffyrdd yn lle mwy diogel byth. Rwy'n fodlon ar y cyfeiriad y mae AHTP wedi'i bennu ar gyfer HTP yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae cwmnïau rheilffyrdd wedi dweud wrthyf eu bod yn croesawu ein hymrwymiad i'r ddwy thema yn y cynllun: 'diogelu a gwasanaethu' a 'hyder ac ymddiriedaeth'. Nod y rhain yw lleihau i ba raddau yr amherir ar wasanaethau, cynyddu diogelwch personol a sicrhau gwelliannau sefydliadol. Mae targedau fel cynyddu cyfraddau datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng 8pm a 2am, a chynyddu diogelwch wrth y croesfannau sy'n peri'r risg fwyaf yn torri tir newydd drwy gael eu cynnwys yn y cynllun hwn am y tro cyntaf.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2010/11: £202.2 miliwn



Andrew Trotter

Prif Gwnstabl, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Ein nod yw diogelu a gwasanaethu'r diwydiant rheilffyrdd, ei deithwyr a'i staff. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi sicrhau bod hyder a boddhad teithwyr a staff y rheilffyrdd wrth wraidd y Cynllun Plismona eleni.

Mae dau faes allweddol yn effeithio ar foddhad teithwyr â'r diwydiant rheilffyrdd: p'un a amharir ar wasanaeth a ph'un a ydynt yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ffordd rydym yn plismona rhwydwaith rheilffyrdd Prydain yn effeithio ar y ddau beth hyn, a dyma pam bod ein targedau eleni yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n amharu ar wasanaethau ac yn effeithio ar ddiogelwch personol.

Rydym eisoes wedi cael effaith sylweddol ar y gwaith o leihau troseddau ar y rhwydwaith rheilffyrdd dros y chwe blynedd diwethaf.

I deithwyr, mae teimlo'n ddiogel yr un mor bwysig â bod yn ddiogel. Gall presenoldeb amlwg staff y rheilffyrdd, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a swyddogion yr heddlu leihau ofn troseddau yn sylweddol. Rydym wedi newid ein dull o batrolio, gan sicrhau mai patrolau sengl yw'r norm fel y gallwn fod yn fwy amlwg a thawelu meddyliau teithwyr. Gwyddom fod pobl yn teimlo'n llai diogel liw nos felly rydym hefyd wedi lansio rhestr ddyletswyddau genedlaethol newydd, sy'n golygu bod mwy o swyddogion ar y rhwydwaith gyda'r nos, a fydd, gobeithio, yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau pobl o ddiogelwch.

Rydym eisoes wedi cael effaith sylweddol ar y gwaith o leihau troseddau ar y rhwydwaith rheilffyrdd dros y chwe blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid ydym yn hunanodlon ac mae'r targedau a luniwyd ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rheilffyrdd yn fwy diogel byth, gan ganolbwyntio ar fathau o droseddau sy'n cael effaith wirioneddol ar deithiau pobl fel digwyddiadau wrth groesfannau, achosion o ddwyn ceblau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau treisgar.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i wella canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch yn elfen hollbwysig o'n strategaeth. Bydd hyn yn aml yn cynnwys ymrwymiad gan weithredwyr rheilffyrdd. Er enghraifft, gall goleuadau ac awyrgylch gwell wneud gwahaniaeth mawr, fel y mae mentrau fel cynllun Park Mark wedi'i brofi. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r diwydiant i gefnogi mentrau o'r fath.

Mae eleni yn mynd i fod yn heriol. Rydym yn gweithio gyda chyfyngiadau ariannol tynnach, ac yn ogystal â mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Plismona hwn, mae'n rhaid ateb yr heriau bob dydd sy'n gysylltiedig â phlismona mewn modd effeithiol o hyd.

Mae gennym weithlu llawn cymhelliant ac ymroddedig iawn sy'n ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth plismona arbenigol i'r rheilffyrdd.

Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r cymunedau a wasanaethwn.

Diogelu a gwasanaethu

Troseddau hysbysadwy

Lleihau nifer y troseddau hysbysadwy o lefel 2009/10

Mae HTP wedi gweld nifer y troseddau yn lleihau'n sylweddol ers 2004/05, sy'n golygu bod eu lleihau ymhellach yn darged heriol. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod ymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad. Nid yw'r targed hwn yn cynnwys troseddau sy'n dod i'r amlwg oherwydd gweithgarwch yr heddlu fel bod â chyffuriau yn eich meddiant a throseddau sy'n gysylltiedig ag arfau ymosodol.

Amseroedd ymateb

Ymateb i o leiaf 80% o ddigwyddiadau dybryd o fewn 20 munud

Mae ymateb i ddigwyddiadau a galwadau am gymorth yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth a ddarperir gennym. Mae'r targed hwn yn pwysleisio ymrwymiad HTP i gyflawni ei Addewid Plismona.

Ymosodiadau ar staff

Cynyddu nifer y datrysiadau mewn perthynas â throseddau lle yr ymosodir ar staff o lefel 2009/10

Bydd HTP yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd i nodi a chanfod y rheini sy'n byglyu staff y rheilffyrdd ac yn ymddwyn yn dreisgar tuag atynt.

Troseddau treisgar

Lleihau nifer yr achosion o drais difrifol yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol a lladradau o lefel 2009/10

Mae HTP yn ymrwymedig i leihau troseddau ac anhrefn ar y rheilffyrdd. Mae hwn yn darged heriol i HTP ar ôl lleihau troseddau 34% dros y pedair blynedd diwethaf.



Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cynyddu nifer y troseddwy'r a ganfyddir am droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflawnir rhwng 8pm a 2am 20% o leiaf

Mae gwaith ymchwil Passenger Focus wedi dangos mai anhrefn, meddwdod a byglyu ar ôl 8pm sy'n effeithio fwyaf ar ofn troseddau. Mae HTP yn ymrwymedig i leihau ofn troseddau a bydd yn cynnal patrolau amlwg iawn i helpu i gyflawni hyn.

Anhrefn sy'n gysylltiedig â phêl-droed

Cynyddu nifer y troseddwy'r a ganfyddir am droseddau anhrefn sy'n gysylltiedig â phêl-droed 25% o leiaf

Amlygwyd y ffaith bod troseddau sy'n gysylltiedig â phêl-droed yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at ofn troseddwy'r a staff. Cyflawnodd HTP gynnydd o 48% yn nifer y troseddwy'r a ganfuwyd yn 2009/10 a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar waith atal a chanfod.

Troseddau y gweinyddir cyfiawnder yn eu cylch

Cynyddu cyfran y troseddau sy'n gysylltiedig â thrais difrifol yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol a lladradau y gweinyddir cyfiawnder yn eu cylch i 40% o leiaf

Mae HTP yn ymrwymedig i dawelu meddyliau dioddefwyr troseddau, yn arbennig dioddefwyr trais difrifol yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol a lladradau. Yn hyn o beth, nod y targed hwn yw sicrhau bod HTP yn dwyn mwy o droseddwy'r o flaen eu gwell am y mathau hyn o droseddau.

Troseddau sy'n gysylltiedig â cheblau

Lleihau nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â cheblau byw o lefel 2009/10

Mae troseddau sy'n gysylltiedig â cheblau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i HTP a'r diwydiant rheilffyrdd. Gall troseddwy'r amharu ar wasanaethau am wythnosau, gan effeithio ar deithwyr a gweithrediadau rheilffyrdd. Mae HTP yn ymrwymedig i atal, arestio a chanfod troseddwy'r sy'n gysylltiedig â'r math hwn o weithgarwch.

Croesfannau

Gwella diogelwch ar 36 o groesfannau risg uchel mewn partneriaeth â Network Rail

Gall digwyddiadau ar groesfannau beryglu bywyd ac amharu'n ddifrifol ar y rhwydwaith. Caiff lleoliadau sy'n peri problemau eu nodi a rhoddir rhaglenni ymyrryd priodol ar waith.



Rheoli marwolaethau

Clirio pob achos o farwolaeth nad yw'n amheus o fewn 90 munud, ar gyfartaledd

Mae gan HTP hanes sicr o ymdrin yn effeithiol â marwolaethau tra'n parchu urddas y rhai a fu farw, gan gynnal ymchwilad trylwyr a sicrhau bod y digwyddiad yn amharu cyn lleied â phosibl ar y rheilffordd. Nid yw'r targed hwn yn cynnwys digwyddiadau mawr a'r rheini a ddsberthir fel rhai nas esboniwyd, rhai amheus, damweiniau traffig ar y ffyrdd wrth groesfannau a phob damwain traffig ar y ffordd arall.

Hyder ac ymddiriedaeth

Ansawdd y gwasanaeth

Cyfradd boddhad dioddefwyr gyffredinol o 80% o leiaf

Mae HTP yn ceisio darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae'r targed hwn yn defnyddio'r Arolwg Boddhad Dioddefwyr i fesur boddhad cyffredinol dioddefwyr troseddau â'r gwasanaeth a ddarperir gan HTP.

Canfyddiadau o ddiogelwch

Gwella canfyddiadau teithwyr o ddiogelwch ar gyfer o leiaf 42 o orsafoedd lle bo'r canfyddiad o ddiogelwch yn wael ar hyn o bryd. Nodwyd y gorsafoedd mewn partneriaeth â Passenger Focus a London Travelwatch

Mae pob Ardal HTP wedi nodi chwe lleoliad a bydd yn rhoi rhaglenni ar waith i wella hyder teithwyr. Cynlluniwyd yr ymyriadau hyn i sicrhau bod gorsafoedd yn fwy diogel gan arwain at lai o ofn troseddau.

Cynrychiolaeth cyflogaion

Gwella lefel y gynrychiolaeth o ran swyddogion yr heddlu sy'n ferched

Cynnal lefel y gynrychiolaeth o ran swyddogion yr heddlu sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Mae'n bwysig bod gweithlu HTP yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Bydd HTP yn parhau i adeiladu ar gynnydd blaenorol sydd wedi golygu mai ef yw'r trydydd heddlu gorau o ran y gynrychiolaeth o swyddogion sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Rheoli absenoldebau

Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o lai na 7.7 diwrnod y cyflogai, ar gyfartaledd

Mae argaeledd staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i HTP gan fod pob cyflogai yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi HTP i ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol.

Prif Uwcharolygydd Peter Davies

Comander Rhanbarthol Sector Cymru

Mae Sector Cymru yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnal diogelwch y teithwyr, staff a chymunedau sy'n teithio ar draws rhwydwaith rheilffyrdd Cymru bob dydd.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi lleoli 74 o swyddogion yr heddlu, naw aelod o staff yr heddlu a 22 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu mewn naw gorsaf heddlu ledled Cymru. Gweithiwn yn agos â phartneriaid sy'n cynnwys Network Rail, cwmnïau gweithredu trenau, Passenger Focus, heddluoedd y Swyddfa Gartref, Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn ac eraill, gyda'r nod o greu amgylchedd rheilffyrdd diogel, heb unrhyw amhariaeth nac ofn troseddau. Er mwyn parhau i wella ffocws ac atebolrwydd, rwy'n cadeirio Partneriaeth Strategol Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Passenger Focus, cwmnïau gweithredu trenau, Network Rail ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Mae ein partneriaeth newydd â Passenger Focus yn ein helpu i roi'r gorau i blismona mewn ffordd gwbl feintiol a dechrau plismona mewn ffordd fwy ansoddol.

Gyda'n gilydd, rydym wedi cael cryn dipyn o lwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf a, gyda'ch help chi, ein nod yw cyflawni llawer mwy yn 2010/11. Rwy'n ymrwymedig i wella ein perfformiad ardderchog er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ym mhob agwedd ar ein gwaith – gan geisio gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro. Mae ein partneriaeth newydd â Passenger Focus yn ein helpu i roi'r gorau i blismona mewn ffordd gwbl feintiol a dechrau plismona mewn ffordd fwy ansoddol. Bydd yn ystyried canfyddiadau o ddiogelwch teithwyr, ac yn llywio ein gwaith mewn ffordd sy'n ceisio tawelu meddyliau tra'n adeiladu ar rai cyfraddau datrys gwych a gyflawnwyd yn 2009/10. Bydd i'r dull hwn o weithredu fanteision clir i deithwyr, staff a'r diwydiant.

Ym mis Medi 2009, agorwyd swyddfa newydd yr heddlu yng Nghaerdydd sy'n darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i staff rheng flaen yng Nghymru. Mae'r swyddfa a'r offer modern yn darparu canolfan gyfathrebu hanfodol i ni gysylltu â phob un o'n rhanddeiliaid a'n teithwyr. Ynghyd â'r broses o ailstrwythuro'r Timau Plismona yn y Gymdogaeth (y Timau), mae wedi arwain at lefel well o blismona i deithwyr a staff y rheilffyrdd ledled y rhanbarth.

Mewn ymateb i'n hanghenion plismona a'r galw cymunedol, symudodd y Timau o Gasnewydd i Gaerdydd y llynedd. Yng Nghaerdydd, mae'r Timau newydd wedi mynd i'r afael â chrwydradaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan wneud gwahaniaeth ansoddol i borth prifddinas Cymru.

Mae plismona yn y gymdogaeth bellach ar waith yng Nghymoedd De Cymru drwy'r Timau ym Mhontypridd. Mae'r timau wedi mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymosodiadau ar staff, a phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol a brofid ar nifer o lwybrau. Mewn partneriaeth ag Arriva, mae cyflwyno a gorfodi'r Cod Ymddygiad, sy'n gwahardd pobl rhag mynd ag alcohol ar drenau, ynghyd â phatrolau heddlu amlwg iawn wedi'u targedu, wedi arwain at leihad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau ar staff.

Gweithiwn yn agos â'r cwmnïau gweithredu trenau, y stadiwm a chydweithwyr o heddluoedd lleol i sicrhau bod Caerdydd a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael y gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol posibl.

Mae Cymru wedi parhau i weld nifer sylweddol o gefnogwyr pêl-droed yn symud ar draws y rhwydwaith drwy gydol tymor 2009/10, ac rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cydbwysu gweithgarwch a arweinir gan guddwybodaeth â thawelu meddyliau partneriaid ein cwmnïau gweithredu trenau, sy'n rhan o'n prosesau cynllunio. Mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae perfformiad eleni o ran ymgyrchoedd a nifer yr arestïadau a oedd yn gysylltiedig â phêl-droed yn dangos ein bod yn benderfynol o wneud hyn.

Mae Sector Cymru yn cynnal nifer o ddigwyddiadau mawr ac mae plismona digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm yn peri ei heriau penodol ei hun. Gweithiwn yn agos â'r cwmnïau gweithredu trenau, y stadiwm a chydweithwyr o heddluoedd lleol i sicrhau bod Caerdydd a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael y gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol posibl. Byddwn yn parhau i adolygu sut y gall gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau ddarparu lefel o blismona sy'n fwy effeithiol a dichonadwy yn ariannol ar gyfer y digwyddiadau hyn. Mae paratodau yn mynd rhagddynt ar gyfer Cwpan Ryder yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd yn 2010 ac rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid i sicrhau bod plismona arferol yn cael ei gynnal ar y rhwydwaith rheilffyrdd tra bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio i gefnogi ein partneriaid mewn gorsafod allweddol yn ystod y digwyddiad.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gynnal ansawdd y gwasanaeth y mae gan ein teithwyr a'n staff yr hawl i'w ddisgwyl. Bydd y mesurau a roddwyd ar waith gan y Cynllun Plismona hwn yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n atgyfnerthu ymhellach ein rôl fel gwasanaeth arbenigol yr heddlu ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd.

Targedau Rhanbarthol

Ymosodiadau ar staff

Datrys o leiaf 73% o ymosodiadau ar staff

Mae gweision sifil yn haeddu gallu gwneud eu gwaith heb ofni niwed a bydd HTP yn gweithio mewn partneriaeth â Trenau Arriva Cymru i ddwyn troseddwy'r sy'n ymosod ar staff y rheilffyrdd o flaen eu gwell. Cofnodwyd 64 o ymosodiadau ar staff yn Sector Cymru yn ystod 2009/10 a datryswyd 38 ohonynt.

Ymddygiad ymosodol tuag at staff

Datrys o leiaf 60% o droseddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ymosodol tuag at staff

Bydd HTP yn gweithio mewn partneriaeth i ddwyn troseddwy'r sy'n difrio staff y rheilffyrdd o flaen eu gwell. Cofnodwyd 162 o droseddau yn ymwneud ag ymddygiad ymosodol tuag at staff yn Sector Cymru yn ystod 2009/10.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cwblhau'n llwyddiannus o leiaf wyth cynllun datrys problemau sy'n ymwneud â phob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae HTP yn ymrwymedig i ddatrys troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol, y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth allweddol gan deithwyr a staff y rheilffyrdd. Bydd o leiaf 70% o'r holl weithgarwch yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng 8pm a 2am.

Croesfannau

Rhoi cynlluniau datrys problemau ar waith y cytunir arnynt ar y cyd â Network Rail i fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar o leiaf ddwy groesfan risg uchel a nodir gan y diwydiant

Mae lleihau'r camddefnydd o groesfannau yn flaenoriaeth i HTP a Network Rail. Bydd cydweithio yn nodi ac yn gweithredu mentrau addysg a gorfodi sy'n gwella diogelwch.

Hyder teithwyr

Bydd Sector Cymru yn cyfrannu at darged Rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr o gynyddu canran y teithwyr sy'n teimlo'n ddiogel mewn chwe gorsaf a nodir yn y Rhanbarth.



Ein nod yn y pen draw yw cynnal record HTP o sicrhau gwelliant cyson ers 2004, sydd wedi golygu bod y rheilffyrdd yn lle mwy diogel byth. Rwy'n fodlon ar y cyfeiriad y mae AHTP wedi'i bennu ar gyfer HTP yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae cwmnïau rheilffyrdd wedi dweud wrthyf eu bod yn croesawu ein hymrwymiad i'r ddwy thema yn y cynllun: 'diogelu a gwasanaethu' a 'hyder ac ymddiriedaeth'. Nod y rhain yw lleihau i ba raddau yr amherir ar wasanaethau, cynyddu diogelwch personol a sicrhau gwelliannau sefydliadol."

Millie Banerjee

Cadeirydd, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Mae Awdurdod yr Heddlu
Trafnidiaeth Prydeinig yn
croesawu eich adborth.
I anfon sylwadau atom
neu i gael gwybodaeth
ychwanegol ewch i:
www.btp.police.uk**

**Cyswllt Rhanbarth Sector Cymru:
Prif Uwcharolygydd Peter Davies,
Comander Rhanbarth**

British Transport Police
Wales & Western Area HQ
1st Floor, The Axis
10 Holliday Street
Birmingham B1 1UP

**Cyswllt cenedlaethol:
Michael Furness**

Strategic Development Department
British Transport Police
Force Headquarters
25 Camden Road
London NW1 9LN

michael.furness@btp.pnn.police.uk



**HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG**